

Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol

15 Mehefin 2017

Ystyried Teithio Llesol wrth Reoli a Darparu Prosiectau Mawr

Rhodddwyd darlun i'r Bwrdd o'r modd y mae Teithio Llesol yn ystyriaeth ym mhob cam wrth drefnu prosiect mawr. Trafodwyd gwahanol agweddau ar y broses a sut y rhoddir ystyriaeth i deithio llesol, gyda thrafodaeth am adolygiad WeITAG, cysylltiadau posib wrth Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac ymgysylltu effeithiol â chyrrff allanol. Trafododd y Bwrdd sut y gallai timau prosiect a grwpiau teithio llesol gyfathrebu'n well â'i gilydd.

Strategaeth Teithio Llesol ym Mhowys

Cafwyd cyflwyniad ynghylch sut y mae Cyngor Sir Powys yn ceisio annog pobl i gerdded mwy trwy osod arwyddbyst ar gyfer llwybrau cerdded milltir o hyd ac yn dosbarthu deunydd sy'n eu hyrwyddo. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog mwy o bobl i wneud teithiau llesol. Clywodd y Bwrdd sut y mae'r Cyngor yn anelu at wella llwybrau cerdded a beicio yn ogystal ag annog pobl trwy ymgyrchoedd a gwybodaeth i newid eu hymddygiad. Targed gwreiddiol y gwaith hwn oedd staff y Cyngor ond y mae bellach wedi'i estyn i ysgolion. Trafododd y Bwrdd y cysylltiad rhwng y fenter hon â rhaglen y Daily Mile a sut y caiff ei effeithiolrwydd ei fesur. Trafodwyd hefyd sut i annog ysgolion i gymryd rhan trwy amrywiaeth o fesurau a chynlluniau.

Pecyn Cycling UK

Clywodd y Bwrdd gyflwyniad am becyn 'Space for Cycling' Cycling UK. Mae'n ymgorffori'r teclyn 'Propensity to Cycle' sy'n dangos senarios twf gwahanol a gwasgariad tebygol y teithiau ar feic. Mae'n ymgorffori hefyd y teclyn asesu 'Cycle Environment' y gall aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio i roi gwybod i awdurdodau lleol pa lwybrau y dylen nhw eu blaenoriaethu yn y dyfodol.

Y Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Cafodd y Bwrdd wybod am y diweddaraf y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud gan gynnwys cynllunio ar gyfer y gynhadledd teithio llesol nesaf yng ngwanwyn 2018 a'r gwbeinarau ag awdurdodau lleol wrth baratoi ar gyfer eu Mapiau Rhwydwaith Integredig.

UNRHYW FATER ARALL

i. Y Grŵp Cyngori ar Deithio Llesol i Ysgolion

Cafwyd y diweddaraf gan y grŵp hwn gan gynnwys hanes yr Inffograffeg 'O'r garreg drws i'r ddesg' sydd bron â bod yn barod.

ii. Pecyn Adolygu Llwybrau i'r Ysgol

Cafodd y Bwrdd grynodedb o'r diweddaraf am y Pecyn Adolygu Llwybrau i'r Ysgol a gafodd ei lansio gan y Gweinidog ym mis Mai a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Traciwr Teithio i'r Ysgol Living Streets.

iii. Gwybodaeth gan Aelodau'r Bwrdd

Cynigir bod aelodau'r Bwrdd yn rhoi crynodeb byr o'r hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd, i'w ddsbarthu cyn pob cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 19 Hydref 2017